**Adroddiad Blynyddol i Rieni – YGG Abercynon**

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Gweler isod grynodeb Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni.

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gweler isod y canllawiau o ran cynnal cyfarfodydd i drafod yr adroddiad.

Os yw rhieni'n dymuno cyfarfod â'r llywodraethwyr, rhaid i ddeiseb gael ei chyflwyno. Rhaid i'r ddeiseb gynnwys enwau 10% o'r rhieni sydd â phlant ar gofrestr yr ysgol, neu enwau 30 o rieni sydd â phlant ar gofrestr yr ysgol (pa un bynnag yw'r nifer leiaf). Rhaid i'r cyfarfod gael ei gynnal cyn pen 25 diwrnod i'r ddeiseb gael ei derbyn ond bydd modd i'w gynnal dim ond os oes digon o ddiwrnodau ar ôl yn y flwyddyn ysgol ar ei gyfer.

Rydyn ni am atgoffa rhieni nad oes modd trafod materion sydd ddim yn ymwneud â'r ysgol yn y cyfarfod, na materion sy'n bersonol i grŵp unigol.

Os hoffech chi ofyn am gyfarfod, yn unol â'r gofynion uchod, cysylltwch â Janet Jenkins Clerc y Corff Llywodraethu drwy e-bost janet.jenkins@rctcbc.gov.uk neu lythyr i Janet Jenkins, Tŷ Trevithick, Abercynon, Mountain Ash. CF45 4UQ.

Yn gywir,

Diane Meaden - Cadeirydd y Corff Llywodraethu

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

**Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Abercynon**

Mae'r adroddiad yma'n crynhoi'r camau a gymerodd y Corff Llywodraethu i gyflawni'i swyddogaethau ers yr adroddiad diwethaf.

## 1. Clerc y Corff Llywodraethu

Clerc y Corff Llywodraethu yw Janet Jenkins, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ.

## 2. Cadeirydd y Corff Llywodraethu

Cadeirydd y Corff Llywodraethu yw Diane Meaden, YGG Abercynon , Greenfield Terrace, Abercynon, Mountain Ash, CF45 4UQ

## 3. Aelodau o'r Corff Llywodraethu

Dyma'r rhai sy'n aelodau o'r Corff Llywodraethu ar hyn o bryd:

| Enw | Math o Lywodraethwr | Penodwyd gan | Dyddiad y daw'r swydd i ben |
|---|---|---|---|
| Rev Peter Lewis<br>CBC Rhys Lewis<br>Mr Christopher Newcombe | **AALl** | **Aelodau o'r Cyngor** | 09/11/2025<br>31/08/2024<br>28/02/2026 |
| Mrs Diane Meaden<br>Miss Janis Werrett | **Llywodraethwyr Cymunedol** | **Corff Llywodraethu** | 24/11/2025<br>07/06/2025 |
| Miss Rebecca Parry<br>Mrs Meredydd Sanita<br>Mrs Lisa Young | **Rhiant** | **Rhieni** | 24/06/2025<br>17/05/2025<br>29/10/2023 |
| Mrs B Marsh | **Athro/Athrawes** | **Staff Addysgu** | 05/11/2025 |
| Mrs C Mack | **Staff** | **Staff sydd ddim yn addysgu** | 06/10/2023 |
| Emma Smith | **Pennaeth Gweithredol** | | 31/08/23 |

Pan fydd yn gyflawn, dyma nifer yr aelodau ar gyfer pob carfan

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynrychiolwyr ALl** | 3 | **Llywodraethwyr Cymunedol** | 3 |
| **Rhiant-lywodraethwyr** | 4 | **Athro-lywodraethwyr** | 1 |
| **Cynrychiolwyr y staff** | 1 | **Awdurdod llai (os yn gymwys)** | 0 |
| **Pennaeth** | 1 | **Cyfanswm** | 13 |

**4. <u>Penderfyniadau</u>**

Doedd dim penderfyniadau yn y cyfarfod diwethaf.

**5. <u>Ethol Rhiant-lywodraethwyr</u>**

Mae'r etholiad nesaf ar gyfer rhiant-lywodraethwyr ar 29.10.2023.
Serch hynny, os bydd rhiant-lywodraethwr yn ymddiswyddo cyn y dyddiad hwnnw, byddwn ni'n trefnu etholiad arbennig ar yr adeg briodol.

**6. <u>Data Cyflawniad yr Ysgol</u>**

Dydy'r wybodaeth hon ddim ar gael gan yr awdurdod.

**7. <u>Adroddiad Ariannol</u>**

Atodwn gopi o adroddiad ariannol yr ysgol am y flwyddyn ariannol 2021-2022 (Atodiad A).

**8. <u>Prosbectws yr Ysgol</u>**

Byddwn ni'n adolygu Prosbectws yr Ysgol yn flynyddol er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau mae Llywodraeth Cymru neu gyrff perthnasol eraill yn eu mynnu. Fel arfer, byddwn ni'n rhoi copi o'r prosbectws i rieni y mae eu plant nhw'n dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf neu'r rheiny sy'n trosglwyddo o'r ysgol fabanod i'r ysgol iau neu o'r ysgol iau/cynradd i'r ysgol uwchradd.

Mae'r rhieni'n cael gwybod am unrhyw newidiadau i'r prosbectws cyfredol.

**9. <u>Cynllun Datblygu'r Ysgol</u>**

Y llywodraethwyr sy'n gyfrifol am lunio Cynllun Datblygu'r Ysgol (ar y cyd â'r staff). Mae'r cynllun yn nodi'r cyfeiriad y bydd yr ysgol yn ei ddilyn, dros gyfnod o dair blynedd, wrth ddarparu'r cwricwlwm. Caiff y cynllun ei fonitro a'i adolygu'n gyson er mwyn ystyried y cynnydd sydd wedi'i wneud ac unrhyw newidiadau i ofynion y cwricwlwm.

Mae Cynllun Datblygu'r Ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021/22 wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Llywodraethwyr ac ar hyn o bryd yn cael ei weithredu gan y staff. Mae'r targedau sydd wedi'u gosod yn cynnwys amcanion y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Caiff targedau eu hadolygu'n gyson gan y Corff Llywodraethu.

### Blaenoriaethau 2021-2022

1. Cyfnod Sylfaen
2. Mwy Abl a Thalentog
3. Cwricwlwm i Gymru
4. Anghenion Dysgu Ychwanegol
5. Presenoldeb

Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys. Mae'r cwricwlwm yn darparu ar gyfer addysgu a dysgu sydd:

a. yn cwmpasu pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad gan gynnwys yr elfennau gorfodol o fewn y meysydd dysgu a phrofiad
b. yn datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol

## 10. Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad

Y llywodraethwyr sy'n gyfrifol am lunio Cynllun Gweithredu ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw faterion allweddol y tynnodd yr arolygwyr ein sylw ni atyn nhw yn ystod arolygiad (allanol) yr ysgol. Mae'r rhieni'n derbyn copi o adroddiad cryno yr arolygwyr.

## 11. <u>Dyddiadau tymhorau a gwyliau y flwyddyn academaidd 2022/2023</u>

| Tymor | Dechrau | Hanner tymor | | Gorffen | Nifer y |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Gorffen | | Diwrnodau ysgol |
| Tymor yr hydref 2022 | Dydd Llun 5 Medi 2022 | Dydd Llun 31 Hydref 2022 | Dydd Gwener 4 Tach 2022 | Dydd Gwener 23 Rhagfyr 2022 | 75 |
| Tymor y gwanwyn 2023 | Dydd Llun 9 Ionawr 2023 | Dydd Llun 20 Chwefror 2023 | Dydd Gwener 24 Chwefror 2023 | Dydd Gwener 31 Mawrth 2023 | 55 |
| Tymor yr haf 2023 | Dydd Llun 17 Ebrill 2023 | Dydd Llun 29 Mai 2023 | Dydd Gwener 2 Mehefin 2023 | Dydd Llun 24 Gorffennaf 2023 | 64 |
| | | | | CYFANSWM | **195** |

i) Bydd **<u>dydd Llun, 5 Medi a dydd Llun, 24 Gorffennaf</u>** yn ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd ar gyfer **<u>pob</u>** ysgol sy'n cael ei chynnal gan yr Awdurdod Addysg Leol. Yr ysgolion unigol fydd yn penderfynu ar ddyddiadau'r tri diwrnod hyfforddiant mewn swydd arall, yn dilyn ymgynghoriad priodol â staff.

Bydd pob ysgol ar gau **<u>ddydd Llun 1 Mai 2023</u>** oherwydd Gŵyl Banc Calan Mai.

Dyddiadau pwysig: Dydd Nadolig Dydd Sul 25 Rhagfyr 2022

Y Pasg Dydd Gwener y Groglith 7 Ebrill 2023
Dydd Llun y Pasg 10 Ebrill 2023

Gwyliau Banc Mai Dydd Llun 1 Mai 2023
Dydd Llun 29 Mai 2023

Os bydd rhaid cau'r ysgol ar gyfer cynnal etholiadau, rhaid unioni'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn academaidd.

**Dyddiadau pwysig**:

Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu dyrannu diwrnodau HMS ychwanegol. Bydd yr ysgolion yn cael gwybod am y rhain ar yr adeg briodol.

Mae trefn y diwrnod fel a ganlyn:

**Bore** – 8.45 - 12.00/12:20
**Amser cinio** – 12.00/12:20 - 13.00/13:15
**Prynhawn** – 13:00/13:15 - 15:15

## 12. Yr Ysgol a'r Gymuned

Mae ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn un sy'n: 'darparu ystod o weithgareddau a gwasanaethau', yn aml y tu hwnt i oriau'r ysgol, er mwyn diwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Ledled Cymru, mae nifer o ysgolion eisoes yn darparu rhai gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys addysg i oedolion, cefnogaeth astudio, cyfleusterau TGCh a rhaglenni chwaraeon cymunedol.

Nid prosiect tymor byr yw datblygu cysylltiad rhwng ysgolion a'r gymuned. Mae'n gyfle gwirioneddol i ysgolion a chymunedau gydweithio mewn ffyrdd newydd er budd plant, pobl ifainc ac oedolion.

Yn Ysgol Abercynon, rydym yn gweithio'n agos gyda llawer o wahanol aelodau o'r Gymuned.

Mae'r ysgol yn derbyn ymweliadau cyson gan yr heddlu, nyrs a'r gwasanaeth deintyddol er mwyn cyfoethogi ein cwricwlwm ysgol. Mae gan yr ysgol hefyd gysylltiadau cryf â'r Ganolfan Chwaraeon leol a rhandiroedd.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol.

Mae gennym hefyd gysylltiadau cryf ag Urdd Gobaith Cymru.

## 13. Adolygu polisïau'r ysgol

Mae'r ysgol wedi paratoi nifer o ddogfennau polisi sy'n trafod meysydd y cwricwlwm ac agweddau eraill ar fywyd yr ysgol. Mae'r staff/llywodraethwyr yn adolygu'r rhain yn barhaus ac yn eu diweddaru ar gyfer cynnwys datblygiadau a gofynion deddfau newydd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy gysylltu â'r Pennaeth yn ystod oriau'r ysgol.

## 14. Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Polisi'r Ysgol ar gyfer Asesu a Darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wedi'i grynhoi fel a ganlyn:

Mae polisi'r Ysgol ar gyfer nodi, asesu a darparu ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gyson â gofynion Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (a gymeradwywyd gan y Senedd ar 23 Mawrth 2021) o dan adran 4 o'r Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg. Deddf (Cymru) 2018.

Mae Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig yr Ysgol yn cydweithio'n agos â'r holl aelodau eraill o staff i sicrhau bod cynlluniau addysg unigol yn cael eu datblygu a'u gweithredu er mwyn diwallu anghenion y disgyblion, a hynny'n addas i'r rheiny sydd eu hangen.

Mae'r Cydlynydd hefyd yn cysylltu â'r holl aelodau o staff i sicrhau bod cynnydd pob disgybl yn cael ei fonitro a'i asesu yn rheolaidd a sicrhau bod y disgyblion yn cyrraedd eu potensial.

Yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol, ar ddyddiad Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, roedd:
3 disgybl ar Gam Gweithredu'r Ysgol / Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar.
4 disgybl ar Gam Gweithredu'r Ysgol a Mwy / Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy (gan gynnwys y rhai oedd â Nodyn i ddisgwyl Datganiad).
2 ddisgybl â Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.

Yn ystod y flwyddyn 2021–2022 rhoddodd yr AALl gefnogaeth ychwanegol i 3 o ddisgyblion ar Gam Gweithredu Ysgol a Mwy.

## 15. Mynediad i Ddisgyblion Anabl

Mae'r Corff Llywodraethu yn ymwybodol o ofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a Gorchymyn Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2005 wrth lunio Cynllun Datblygu'r Ysgol / Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg, a gweithrediad dyddiol y safle.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu manteisio ar gwricwlwm yr ysgol a gweithgareddau megis clybiau ar ôl ysgol, digwyddiadau chwaraeon/hamdden ac ymweliadau addysgiadol (os ydyn nhw'n dymuno). Mae pob agwedd ar fynediad, gan gynnwys mynediad i wybodaeth ysgrifenedig, wedi eu cynnwys yn y broses gynllunio.

Mae gan y Sir Strategaeth Hygyrchedd ac mae archwiliad wedi ei wneud o safle'r ysgol yn unol â'r strategaeth yma, fel rhan o friff yr Awdurdod, i nodi unrhyw rwystrau posib ac (yn y pen draw) wella mynediad i'r ysgol.

## 16. Cyfansoddiad yr Adeilad a Darpariaeth y Cyfleusterau Toiled

Yn gyffredinol, mae'r adeilad mewn cyflwr da. Mae'r gwaith cynnal a chadw canlynol wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

Symudwyd swyddfa'r pennaeth o adeilad Gorlan i'r prif adeilad. Mae'r swyddfa bellach wedi'i lleoli ar y llawr uchaf rhwng dosbarth Arthur a'n hystafell ymyrraeth. Paentiwyd yr holl ystafelloedd dosbarth yn y prif adeilad. Gosodwyd drysau tân newydd mewn nifer o ddosbarthiadau. Rhoddwyd wyneb llawr newydd ar brif goridor y llawr uchaf yn lle'r carped. Paentiwyd y neuadd, yn ogystal â'r coridorau cyfagos a'r grisiau yn ystod gwyliau'r Haf. Gosodwyd canopïau newydd ar iard yr ysgol sydd yn darparu lloches i'r disgyblion.

**17. Gosod targedau**

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael gan yr awdurdod.

**18. Manylion ar faterion Presenoldeb**

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 21-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 89.9% | 89.3% | 90.5% | 87.9% | 88.3% | 84.8% | 88.4% |

**19. Trefniadau Derbyn/Pontio**

Y Cyngor Bwrdeistref Sirol yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer pob ysgol (ar wahân i ysgolion yr Eglwys, lle mai corff llywodraethu'r ysgol yw'r awdurdod derbyn) o fewn ffiniau'r Awdurdod. Mae'r trefniadau derbyn disgyblion, felly, yn cael eu gweithredu yn unol â pholisi'r Awdurdod ar dderbyn disgyblion, sydd wedi'i gynnwys yn y llyfryn Dechrau'r Ysgol. Caiff rhieni gopi o'r llyfryn ar ôl llenwi cais am le yn yr ysgol i'w plentyn. Gellir hefyd weld cynnwys y llyfryn hwn ar-lein ar wefan yr Awdurdod.

Bydd disgyblion fel arfer yn aros yn yr ysgol hyd nes iddynt gwblhau blwyddyn chwech ac yna symud i'r ysgol uwchradd. Mae'r ysgol hon yn bwydo Ysgol Gyfun Gymunedol Rhydywaun, ond, gall disgyblion ymgeisio i fynychu unrhyw ysgol uwchradd o'u dewis yn amodol ar gydymffurfio â pholisi derbyn disgyblion yr Awdurdod.

**20. Disgyblion sy'n gadael yr ysgol**

Mae 34 o ddisgyblion wedi gadael yr ysgol i fynychu ysgol gyfun

**21. Amcanion a Champau Byd Chwaraeon**

Ailddechreuodd timau chwaraeon yr ysgol weithgareddau a chystadlu mewn amrywiol ddigwyddiadau yn dilyn y toriad gorfodol a achoswyd gan y Pandemig. Cafodd dau aelod o dîm rygbi'r ysgol eu dewis ar gyfer carfan dan 11 oed Ysgolion Cwm Cynon. Dewiswyd tri aelod o dîm rygbi'r ysgol gan garfan Rygbi Ysgolion Clwstwr Rhydywaun a chwaraewyd yn nhwrnamaint saith bob ochr Rosslyn Park yn Llundain. Enillodd y tîm rygbi Ŵyl rygbi Tag Gleision Caerdydd a gynhaliwyd yn

Abercynon. Cyrhaeddodd tîm rygbi'r merched rownd gyn derfynol twrnamaint tag yr Urdd Cymoedd Morgannwg. Bu sgwad pêl-droed y bechgyn yn cystadlu yn nhwrnamaint pêl-droed ysgolion RhCT ym Mhontypridd ac yng nghystadleuaeth yr Urdd Cymoedd Morgannwg yn Aberdâr. Enillodd sgwad pêl-droed y merched y twrnamaint pêl-droed 'Game on Girls' yn Nhrefforest. Roedd un aelod o dîm pêl-droed merched yn cynrychioli tîm pêl-droed merched RhCT. Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol yn nhymor yr Haf i bob disgybl. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at ailsefydlu ein clybiau chwaraeon ar ôl ysgol yn 2022-23.

## 22. <u>Bwyta'n Iach</u>

Yn Ysgol Gymraeg Abercynon rydym yn annog disgyblion i fabwysiadu a chynnal ffordd iach o fyw yn yr ysgol a gartref. Rydym yn hybu bwyta'n iach ar bob cyfle. Gofynnir i ddisgyblion ddod â byrbryd iach i'r ysgol ar gyfer egwyl y bore, lle mae aelodau staff hefyd yn modelu'r ymddygiad hwn trwy fwyta byrbrydau iach ochr yn ochr â'r disgyblion. Yn ystod y dydd caiff disgyblion fynediad i ddŵr yfed ffres o fewn y dosbarth yn ôl yr angen. Darperir llaeth hefyd i ddisgyblion y cyfnod sylfaen bob dydd. Mae disgyblion sy'n cael cinio ysgol yn cael dewis o ddŵr, llaeth neu sgwash gyda'u prydau. Fel ysgol rydym yn cymryd rhan yn Ionawr Iachus gyda'r nod o gael disgyblion a'u teuluoedd i symud, sy'n anelu at feithrin arferion actif parhaol. Anogwyd disgyblion i gadw'n heini ac iach yn ystod y cyfyngiadau COVID gyda'u teuluoedd trwy ddilyn fideos ffitrwydd fel fideo Ionawr Iachus yr Urdd a sesiynau cloi Joe Wicks. Fe'u hanogwyd hefyd i fynd am dro yn yr awyr agored neu yrru beic yn rheolaidd gyda'u teuluoedd fel rhan o'u tasgau dysgu gartref. Yn ystod tymor yr haf rydym yn hybu bwyta'n iach trwy gynnal wythnos bwyta'n iach lle mae plant yn dysgu am wahanol grwpiau bwyd, eu heffeithiau ar ein corff a hefyd yn cael cyfle i flasu a pharatoi byrbrydau iach. Anogir disgyblion i chwarae'n gydweithredol a pharchus gyda'u cyfoedion wrth ddilyn rheolau'r ysgol bob amser. Dethlir llwyddiant bob amser yn ein gwasanaethau. Byddwn bob amser yn ymdrechu i ysbrydoli perthnasoedd hapus, meithringar a ffyrdd iach o fyw yn ein hysgol.

**ATODIAD A**

YSGOL GYNRADD GYMRAEG Abercynon - DATGANIAD ARIANNOL DROS DRO AR GYFER 2020/21

| **TREULIAU CYNNAL GWEITHWYR** | **Cyfanswm a wariwyd £** |
|---|---|
| ATHRAWON (pennaeth / athrawon cyflenwi / cymorth darllen) | |
| LLAFURWYR (gofalwr / cynorthwywyr goruchwylio / glanhawyr) | |
| Clerc Ysgol / Nyrs Meithrin / Cymorth Ysgol. | |
| **Cyfanswm** | **£1,102,140** |
| **MATERION ADEILAD/SAFLE** | |
| ATGYWEIRIO'R ADEILAD/SAFLE (gan gynnwys cynnal a chadw'r tir / diogeledd | |
| YNNI | |
| TRETHI LLEOL | |
| DŴR | |
| DEUNYDDIAU GLANHAU | |
| **Cyfanswm** | **£100,921** |
| **CYFLENWAD (STOC), GWASANAETHAU A THREULIAU ERAILL** | |
| CYFARPAR/CELFI | |
| POSTIO | |
| FFÔN | |
| YSWIRIANT | |
| CLERC Y CORFF LLYWODRAETHU / GWEINYDDIAETH ARIANNOL / MATERION PERSONÉL | |
| **CYFANSWM:** | **£86,699** |
| | |
| **CYFANSWM:** | **£1,289,760** |
| **INCWM** | **-£328,858** |
| **AMRYWIOL** | **£4,416** |
| **CYFANSWM** | **£965,318** |